



Ymddiriedolaethau Natur
Cymru
Wildlife Trusts
Wales

Edrych! Afanc!

Bydd yn ddinesydd
wyddonydd ar gyfer
afancod yng Nghymru

PROSIECT
**AFANCOD
CYMRU**



**WELSH
BEAVER
PROJECT**

Cynnwys

Byddwch yn Ymwybodol!.....	3
Edrych! Afanc! Cyflwyniad	4
Hanfodion yr Afanc.....	5
Afanc neu Dyfrgi?.....	6
Yn y dwr:	
Afanc neu Dyfrgi?.....	7
Printiau.....	9
Adnabod Tiriogaethau Afancod	12
Argaeau	13
Porthdai.....	15
Arwyddion Bwydo.....	17
Rhywogaethau sy'n Byw mewn Ecosystemau Afancod	19
Gerifa.....	20



Afanc yn nofio

Dewch yn ôl i'r Cynnwys unrhyw bryd
trwy glicio yma ar unrhyw dudalen.



Byddwch yn Ymwybodol!

Pan fyddwch yn chwilio am afancod, cofiwch y cyngor canlynol:

- Gwisgwch ddillad cynnes ac esgidiau caeedig synhwyrol. Cariwch ddillad gwrth-ddŵr (a dillad ychwanegol) oherwydd gall amodau newid yn gyflym hyd yn oed yn y misoedd cynhesach a sychach.
- Peidiwch â mynd yn agos i'r afancod a gwnewch yn siŵr eich bod yn eu harsylwi o bellter diogel rhag tarfu arnynt neu fywyd gwyllt arall.
- Cadwch yn dawel a peidiwch â symud yn sydyn.
- Bydd cŵn yn ei gwneud hi'n anoddach gweld afanc. Os yw eich cŵn yn ymuno â chi, gwnewch yn siŵr i'w cadw ar dennyn bob amser.
- Ewch â ffôn, ysbienddrych, a camera fel y gallwch dynnu lluniau a rhoi gwybod am yr afancod a welwyd.
- Mae afancod yn arbennig o weithgar adeg codiad yr haul a machlud haul felly ceisiwch fod allan yn gynnar neu'n hwyr.
- Mae diwedd y gwanwyn a'r haf yn gyfnodau delfrydol i weld afanc oherwydd cyfnodau mwy o olau dydd.



Pâr o afancod



Edrych! Afanc! Cyflwyniad

Mae Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru (ar ran yr Ymddiriedolaethau Natur yng Nghymru) yn gweithio i ailsefydlu afancod yng Nghymru. Roedd afancod Ewrasiaidd yn arfer bod ledled y wlad ond cawsant eu hela hyd at ddiffodiant tua 400-500 mlynedd yn ôl. Mae'r Ymddiriedolaethau Natur yn cefnogi dychweliad afancod i'r gwyllt oherwydd gallant ddarparu llawer o fanteision amgylcheddol a fydd yn gwella ein hecosystemau dŵr croyw yn sylweddol. Fodd bynnag, mae afancod angen eich help i ailsefydlu yn y gwyllt. Rydym yn cynnal cynllun dinesydd wyddonydd er mwyn i chi allu chwarae rhan hanfodol wrth gofnodi weld afancod ac arwyddion maes. Darllenwch ymlaen i glywed sut i adnabod afanc.

Mae rhagor o wybodaeth am afancod ar dudalen wê [Prosiect Afancod Cymru](#).

Afanc yn bwydo ar gangen helyg.

Hanfodion yr Afanc

- Cnoflod lled-ddyfrol yw afancod sy'n byw mewn grwpiau teuluol. Gelwir afancod ifanc yn gitiau. Mae afancod yn diriogaethol ac, yn gyffredin, mae'r afancod mewn tiriogaeth yn cynnwys pâr magu o oedolion, eu hilion o'r flwyddyn gyfredol yn ogystal â'u citiau o'r flwyddyn flaenorol. Cyrhaeddir oedolaeth ar ôl tua 24 mis ac mae'r ifanc yn gwasgaru i sefydlu eu tiriogaethau eu hunain ar ôl tua dwy flynedd.
- Mae gan afancod Ewrasiaidd yr enw gwyddonol o *Castor fiber*. (Er eu bod yn edrych yn debyg iawn, maent yn wahanol i rywogaethau afanc Gogledd America, *Castor canadensis*.)
- Cyrff hir sydd, pan fyddant yn oedolion, yn mesur ychydig dros fetr o hyd a 30–40 cm o led. Gall oedolion bwyso 20–30 kg sy'n eu gwneud yn debyg o ran maint i gi canolig fel sbaniell
- Mae ganddynt ffwr brown trwchus dros y corff (ond nid eu cynffonau). Mae'r ffwr fel arfer yn frown canolig ond gall amrywio o ran lliw o frown golau neu frown-goch i ddu.
- Traed ôl sydd â gwe ar gyfer nofio.
- Ar dir, cerddant gyda cherddeddiad tonnog.
- Cynffonau llydan, di-flew sy'n helpu gyda nofio. Mae afancod yn taro eu cynffonnau yn erbyn y dŵr i rybuddio aelodau'r teulu pan fydd perygl yn agos.
- Dau ddant blaen mawr sy'n ymwthio allan. (Mae eu blaenddannedd gwaelod yn llai amlwg.) Mae'r dannedd hyn yn amsugno haearn o'r amgylchedd. Mae'r haearn yn golygu bod y dannedd fel arfer yn oren llachar ac mae'n rhoi cryfder mawr iddynt ar gyfer cnoi boncyffion a changhennau.





Dyfrgi Ewrasiaidd, *Lutra lutra*

Afanc neu Dyfrgi?

Mae afancod yn nodedig ac yn wahanol i'r rhan fwyaf o anifeiliaid eraill y gallech ddod ar eu traws yn eu cynefinoedd. Fodd bynnag, maent yn debyg iawn i'r dyfrgi Ewrasiaidd (*Lutra lutra*).

Dyma rai o'r gwahaniaethau allweddol rhwng dyfrgwn ac afancod:

- Mae dyfrgwn yn llawer llai nag afancod. Mae dyfrgwn yn pwyso tua 10 kg ac maent tua 90 cm o hyd (heb gyfrif eu cynffon 40 cm). Ar y llaw arall, mae afancod yn 20–30 kg gyda hyd corff o tua 100 cm (ynghyd â chynffon 35 cm).
- Mae dyfrgwn yn deneuach nag afancod. Mae gan ddyfrgwn gynffonau hir, cul a main, tra bod gan afancod gynffonau mawr, gwastad, heb flew.
- Mae dyfrgwn yn byw mewn cuddfannau syml sy'n anodd iawn i weld. Ar y llaw arall, mae afancod yn adeiladu argaeau a porthdai cywrain iawn allan ganghennau a llaid sy'n anodd eu methu!
- Mae dyfrgwn yn fwy tebygol o fod yn actif yn ystod y dydd (dyddiol) tra gall afancod fod yn haws i'w gweld gyda'r wawr, y cyfnos a'r nos (crepusiolar a nosol).
- Mae dyfrgwn yn gigysol (yn bwyta pysgod, cramenogion a hyd yn oed pryfed a mamaliaid bach) tra bod afancod yn llysychol yn llwyr (yn bwyta dail, brigau a rhisgl).
- Mae gwyneb dyfrgi'n gulach na thrwyn byrdew yr afanc.
- Pan fydd yn y dŵr, mae ffwr afancod yn aml yn ymddangos yn fwy blêr na ffwr slic dyfrgi.
- Mae meintiau tiriogaeth yn amrywiol iawn. Fodd bynnag, mae tiriogaethau afancod ar hyd yr afon yn tueddu i fod yn llai (efallai tua 1.8 milltir neu 3km) na thiriogaethau dyfrgwn (a all fod yn 13 milltir neu 20km).



Dyfrgi, *Lutra lutra*



Afanc, *Castor fiber*

o



Afancod yn nofio

Yn y dwr: Afanc neu Dyfrgi?

Gan fod dyfrgwn yn deneuach nag afancod, maent yn ymddangos yn fwy lluniaidd wrth nofio. Mae crychdon dyfrgwn yn sythach ac yn gulach na'r afancod sy'n aml yn gadael crychdon lletach a braidd yn grwn yn y dŵr y tu ôl.


Dim ond y pen sydd i'w weld uwchben y dŵr pan fydd afanc aeddfed yn nofio. Ar y llaw arall, pan fydd cit afanc yn nofio, mae ei gefn yn aml yn ymestyn uwchben gwyneb y dŵr hefyd.

Wrth gwrs, mae afancod a dyfrgwn hefyd yn nofio o dan ddŵr a, phan fyddant yn gwneud hyn, maent yn llawer anoddach eu gweld!

Llun trwy garedigrwydd Chris Robbins

Esiaml o afanc yn nofio

Esiaml o dyfrgwn yn nofio



Afancod yn y dwr

Llun trwy garedigrwydd Chris Robbins

Dyfrgwn yn y dwr

Llun trwy garedigrwydd Andy Rouse



Llun trwy garedigrwydd Chris Robbins



Llun trwy garedigrwydd Andy Rouse



Llun trwy garedigrwydd Ian Sargent



Llun trwy garedigrwydd Andy Rouse

Printiau

Mae olion traed pawennau blaen afancod fel arfer yn 5–7 cm o hyd a thua 5 cm o led. Weithiau, dim ond pedwar o'r pum bys blaen y gellir eu hadnabod yn y print. Mae olion traed afancod fel arfer yn 12–17 cm o hyd a thua 10 cm o led ac fel arfer gellir gweld pob un o'r pum bys traed. Nodwch y gall cynffonau llydan yr afancod frwsio drosodd ac anffurfio'r olion traed y maent yn eu gadael ar ôl.

Yma, mae gennym brintiau afancod yn ogystal â phrintiau a allai fod yn ddryslyd hefo anifeiliaid eraill. Lle mae'r printiau blaen ac ôl yn sylweddol wahanol, dangosir y ddau.

Ar yr amod bod y bar graddfa isod yn 2 cm o hyd, mae'r holl brintiau hefyd eu maint gwirioneddol.


2 cm




Blaen Chwith
Afanc



Cefn Dde
Afanc



Blaen Dde
Dyfrgi



Blaen a chefn Llygoden y
dŵr



Blaen Dde
Minc



Blaen Mochyn
Daear



Blaen Chwith
Cadno
(Nodwch fod printiau cŵn yn debyg)

Pawen ôl gweog afanc



Printiau afanc




Sylwch y gall olion traed anifeiliaid amrywio o ran siâp a maint yn dibynnu ar y mwd a'r gwaddod. Weithiau gallant edrych yn sylweddol fwy na'r droed a wnaeth y print.

Printiau ôl afanc



Printiau blaen ac ôl dyfrgwn



Llun trwy garedigrwydd Karen Lloyd

Printiau ôl afanc



Llun trwy garedigrwydd Wildlife Trusts


Printiau blaen yr afanc



Llun trwy garedigrwydd Roisin Campbell-Palmer

Edrych! Afanc!

Tudalen 11



Llun trwy garedigrwydd Roisin Campbell-Palmer



Llun trwy garedigrwydd Roisin Campbell-Palmer

Adnabod Tiriogaethau Afancod

Mae afancod yn adeiladu argaeau mawr allan o bren, mwd a cherrig. Mae llawer o'r pren wedi'i wneud o ffyn a choesynnau coed llai y syrthiodd afancod gyda'u blaenddannedd miniog. Mae'r argaeau hyn yn arafu llif y dŵr ac felly'n gallu helpu i leihau llifogydd i lawr yr afon ar adegau o law. Tra hefyd yn cadw ecosystemau'r afancod yn wlyb tra'n cynnal llif y nentydd yn ystod cyfnodau sych. Oherwydd bod argaeau'n hidlo gwaddodion, gallant hefyd wella ansawdd dŵr i lawr yr afon.

Gall yr argaeau greu pyllau sylweddol sy'n ddeniadol iawn i bysgod, amffibiaid, llygod y dŵr, dyfrgwn, infertebratau ac anifeiliaid eraill. (Sylwer nad oes yr un o'r anifeiliaid hyn yn cael eu bwyta gan yr afancod sy'n hollol llysoll!)

Man gorffwys a magu i afancod yw porthdy. Fel arfer caiff porthdai eu hadeiladu ar lan afonydd, llynnoedd neu byllau, neu weithiau yng nghanol llyn neu bwl. Mae porthdy fel arfer ar ffurf twmpath o ffyn a mwd gyda siambrau byw mewnol y gellir eu cyrraedd trwy fynedfeydd tanddwr.



Argae afanc

Argaeau

Mae argaeau yn dystiolaeth wych o fedrusrwydd afancod mewn peirianeg ecosystemau. Dim ond ar nentydd bach a llednentydd y gwelir yn bennaf, lle mae angen cadw dŵr a rheoli dyfnder. Mae'r rheolaeth hon yn creu lefel dŵr sefydlog sy'n galluogi afancod i adeiladu porthdai gwarchodedig a hefyd yn darparu adnoddau bwydo newydd.

Mae afancod yn lled-ddyfrl ac anaml y byddant yn mentro mwy nag 20m o ymyl y dŵr. Mae bod mewn dŵr neu'n agos ato yn eu helpu i osgoi ysglyfaethwyr.

Argaeau afanc

Llun trwy garedigrwydd Wildlife Trusts

Llun trwy garedigrwydd Wildlife Trusts

Llun trwy garedigrwydd Wildlife Trusts

Gall
argaeau
afancod ddod
mewn amrywiaeth
fawr o feintiau
yn dibynnu ar y
tirwedd

Llun trwy garedigrwydd Wildlife Trusts


Llun trwy garedigrwydd Wildlife Trusts

Porthdai

Mae afancod yn aml yn byw mewn porthdai sydd wedi'u adeiladu yn ofalus allan o fwd, canghennau a llystyfiant arall. Fodd bynnag, gallant hefyd gloddio a defnyddio tyllau ychwanegol yn yr un lleoliad.

Lle mae cwrs dŵr yn caniatáu adeiladu tyllau mawr yn ddiogel oddi wrth ysglyfaethwyr, efallai na fydd angen i afancod adeiladu porthdy hyd yn oed. Yn lle hynny, bydd tyllau'n cael eu cynnal a'u toi weithiau gyda ffyn.

Gall porthdai fod yn sefyll ar eu pennau eu hunain neu'n cael eu hadeiladu i mewn i'r glannau ar lan y dŵr. Fel arfer mae gan y porthdai o leiaf ddwy fynedfa ac efallai y bydd gan rai sawl siambr fewnol.



Enghreifftiau o borthdai afancod ar y glannau ac ar ben eu hunain.



Llun trwy garedigrwydd DJ Halley



ius

Llun trwy garedigrwydd Wildlife Trusts



Llun trwy garedigrwydd Wildlife Trusts



Llun trwy garedigrwydd AW Mart



Llun trwy garedigrwydd Wildlife Tru



Llun trwy garedigrwydd Wildlife Trusts

Arwyddion Bwydo

- Mae'n well gan afancod fwyta coed collddail fel helyg a bedw..
- Mae ganddynt lluniaeth tymhorol. Yn yr haf mae'n well ganddyn nhw lystyfiant meddalach a gwyreddach. Yn y gaeaf, pan fo gwyreddni yn brinnach, maent yn tueddu i fwydo ar rannau prenaidd o'r coed.
- Gall afancod hyd yn oed gnoi trwy foncyffion coed mawr iawn. Yn yr un modd, byddant yn cnoi ar ganghennau a boncyffion main a chanolig. Mae boncyffion sydd wedi eu cnoi yn aml yn cael eu gadael gyda siâp pigfain nodweddiadol.
- Yn aml mae'n bosibl gweld y marciau dannedd cyfochrog a adawyd gan eu blaenddannedd mawr. Bydd digonedd o sglodion pren hefyd i'w gweld o dan goeden neu gangen sydd newydd eu gnoi.
- Mae bonion coed wedi'u cnoi yn ffrês. Mae olion dannedd nodweddiadol afancod i'w gweld ar y darnau wedi'u cnoi ac mae sglodion pren ffrês wedi'u gwasgaru ar y ddaear.



Golygfa ochr o siâp pigfain nodweddiadol blaen cnoi.

Bonion coed wedi'u cnoi yn ffrês. Mae olion dannedd nodweddiadol afancod i'w gweld ar y darnau wedi'u cnoi ac mae sglodion pren ffrês wedi'u gwasgaru ar y ddaear.

Afanc yn bwydo



Llun trwy garedigrwydd Wildlife Trusts

Marciaudannedd newydd ar foncyff coeden



Llun trwy garedigrwydd Wildlife Trusts

Coeden sydd newydd ei gwmpo. Gellir gweld olion dannedd a sglodion pren.



Llun trwy garedigrwydd Wildlife Trusts

Hen arwydd bwydo gydag aildyfiant i'w weld.



Llun trwy garedigrwydd Wildlife Trusts

Coeden gyda rhisgl wedi'i thynnu o amgylch ei boncyff gan afancod.



Llun trwy garedigrwydd Wildlife Trusts

Hen arwydd bwydo gydag aildyfiant toreithiog i'w weld.



Llun trwy garedigrwydd Wildlife Trusts

Rhywogaethau sy'n Byw mewn Ecosystemau Afancod

Llygoden y dŵr *Arvicola amphibius*



Mamaliad gan gynnwys llygod dŵr a brodorion dŵr.

Hwyaid Gwyllt *Anas platyrhynchos*



Adar yn cynnwys glas y dorlan, siglennod, bronwen y dŵr, gwybedog, hwyaid, gwyachod, cwtieir ac ieir dŵr.

Broga *Rana temporaria*



Amffibiaid gan gynnwys brogaod, llyffantod, madfalloedd dŵr (a'u hwyau a grifft).

Rhufell *Rutilus rutilus*



Pysgod gan gynnwys llysywen bendoll, eogiaid, pigynnod a rhufell.

Chwilod whirligig *Gyrinus natator*



Trychfilod fel chwilod, gweision y neidr, a chwilod dŵr.

Malwen ddŵr *Viviparus* sp.



Infertebratau eraill gan gynnwys pryfed cop, molysgiaid, a chramenogion.

Dyfrllys *Potamogeton crispus*



Planhigion dyfrol fel *Potamogeton*.

Aethenni *Populus tremula*



Hoff goed llydanddail yr afancod gan gynnwys helyg, bedw ac aethnenni.

Gerifa

Cigysydd

Yn bwydo ar anifeiliaid eraill fel mamaliaid, pryfed a chramenogion

Crepusciwlar

Yn weithgar gyda'r wawr a'r cyfnos

Collddail

Planhigion sy'n colli eu dail i gyd yn ystod rhan o'r flwyddyn

Dyddiol

Yn actif yn bennaf yn ystod y dydd

Modd cerdded

Ffordd y mae anifail yn cerdded

Llysfol

Yn bwydo ar ddeunydd llysiau gan gynnwys planhigion ac algâu

Infertebrat

Anifail heb asgwrn cefn. Mae'r rhain yn cynnwys pryfed, pryfed cop, cramenogion, mwydod, malwod (a molysgiaid eraill) a llawer o rai eraill.

Holt

Ffau dyfrgwn

Cit afanc

Afanc ifanc

Porthdy

Cartref yr afancod sydd wedi'i wneud yn bennaf o ffyn a mwd. Gall porthdai fod yn sefyll ar eu pennau eu hunain neu'n cael eu hadeiladu i mewn i'r glannau ar lan y dŵr.

Nosol

Yn actif yn bennaf yn ystod y nos

Glan-afon

Yn byw neu'n digwydd ger afonydd

Lled-ddyfrol

Byw mewn dŵr neu'n agos ato



Afanc yn nofio





Ymddiriedolaeth Natur
Gogledd Cymru
North Wales
Wildlife Trust

Cynhyrchwyd yr adnodd hwn gan Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru ar ran yr Ymddiriedolaethau Natur yng Nghymru.



Ymddiriedolaethau Natur
Cymru
Wildlife Trusts
Wales



Ymddiriedolaeth Natur
De a Gorllewin Cymru
Wildlife Trust of
South & West Wales



Ymddiriedolaeth
Natur
Gwent
Wildlife Trust



Ymddiriedolaeth Natur
Maldwyn
Montgomeryshire
Wildlife Trust



Ymddiriedolaeth Natur
Sir Faesyfed
Radnorshire
Wildlife Trust



**Cronfa Amaethyddol Ewrop ar
gyfer Datblygu Gwledig:**
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
**European Agricultural Fund for
Rural Development:**
Europe Investing in Rural Areas



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae'r prosiect hwn wedi derbyn cyllid drwy Gymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014–2020 – Cynllun Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant, a ariennir gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru.

PROSIECT
AFANCOD
CYMRU



WELSH
BEAVER
PROJECT



Cit afanc



Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru North Wales Wildlife Trust

Mae Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru, ynghyd ag aelodau, gwirfoddolwyr a chyda chefnogaeth rhwydwaith cynyddol o filoedd o bobl mewn cymunedau amrywiol, wedi ymrwymo i ddod â bywyd gwyllt yn ôl, grymuso pobl i weithredu dros natur, a chreu cymdeithas lle mae natur o bwys.

Rydym yn rhan o rwydwaith cenedlaethol o 46 o Ymddiriedolaethau Natur ar draws y DU. Rydym yn ymgychu i warchod bywyd gwyllt a chynefinoedd yn lleol ac yn genedlaethol.

Mae Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru yn chwarae rhan ganolog mewn cadwraeth natur – ac rydym am i chi fod yn rhan ohono!

EMAIL	info@northwaleswildlifetrust.org.uk
PHONE	01248 351541
FACEBOOK	northwaleswildlifetrust
WEBSITE	northwaleswildlifetrust.org.uk
TWITTER	@North_Wales_WT
INSTAGRAM	@northwaleswildlifetrust

North Wales Wildlife Trust (Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru)
Garth Road (Heol Garth)
Bangor LL57 2RT

Rhif Elusen Gofrestredig: 230772
Rhif Cwmni: 773995

